**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN
seneddeconomy@senedd.wales

09 Chwefror 2023

Annwyl Paul

**Adolygiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig o'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021**

Yn fy ymateb i Argymhelliad 4 o adolygiad y Pwyllgor o Reoli Rheoliadau Llygredd Amaethyddol (CoAPR), es ati i ddarparu crynodeb o bwyntiau allweddol y cytundeb ar lefel y gwasanaeth (SLA), o ran yr adnoddau ar gyfer gorfodi'r Rheoliadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru, uwaith y cytunir arno.

Yn dilyn trafodaethau rhwng CNC a Llywodraeth Cymru, mae'r SLA bellach wedi ei ei gytuno. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £2.55m, dros y ddwy flynedd ariannol nesaf, i gefnogi gorfodaeth CNC o'r Rheoliadau. Rhennir yr arian, gyda £1m yn cael ei ymrwymo yn ystod blwyddyn ariannol 2023-2024 a £1.55 yn 2024-25. Bydd lefel y cyllid yn cynyddu ym mlwyddyn 2, wedi recriwtio staff yn ystod blwyddyn 1.

Mae'r SLA yn gorchuddio:

- Cydymffurfio â gofynion CoAPR a'u gorfodi ar draws yr holl sectorau amaethyddol a'r gweithgareddau perthnasol, fel gweithgareddau ailgyflwyno maethynnau yng Nghymru.
- Y Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyflawni Traws-gydymffurfio.
- Darparu tystiolaeth gymhwysol, cynllunio amgylcheddol, datblygu rhaglenni, cyngor statudol mewnol/allanol, ac arweiniad mewn perthynas â chyflwyno a gweithredu'r Rheoliadau, gan gynnwys mewn perthynas â'r adolygiad 4-mlynedd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd yr SLA yn cyflawni yn erbyn y meysydd y cyfeirir atynt uchod trwy welliannau graddol, yn y ffyrdd canlynol:

- Recriwtio, hyfforddi a datblygu staff.
- Datblygu a darparu hyfforddiant ac arweiniad (mewnol ac allanol).
- Datblygu a chyflwyno rhaglen arolygu cydymffurfiaeth CoAPR arfaethedig gyda gorfodi cysylltiedig.
- Ymweliadau dilynol mewn perthynas ag ymgyrchoedd rheoleiddio blaenorol.
- Ymateb i ymgynghoriadau ceisiadau cynllunio Awdurdodau Lleol.
- Asesiad hysbysu cyn adeiladu o'r seilwaith perthnasol a darparu ymateb ysgrifenedig i geisiadau am gadarnhad (lle bo angen am grantiau LIC).
- Darpariaeth traws-gydymffurfio o ddata gofynnol, hyfforddiant, cyngor technegol arbenigol ac arolygu achosion CoAPR cymhleth ar gyfer staff RIW.
- Adolygiad statudol 4-mlynedd o effeithiolrwydd CoAPR.

Fel rhan o'r gwaith o gyflawni'r SLA, bydd CNC yn cyflwyno adroddiadau i Lywodraeth Cymru i alluogi monitro ac adolygu'r cytundeb.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS**
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd